# Dyma gyfarfod hyfryd iawn…

Yn ystod y cyfnod hwn gwerthfawr yw oedi a threulio amser yn myfyrio ar air Duw yng nghwmni'n gilydd.
Yr ydym yn dilyn awgrymiadau gan y Llithiadur Diwygiedig Cyffredin ar gyfer y Sul.

**EMYN – Caneuon Ffydd 323**
**Mawr oedd Crist**

**GWEDDI**

Fugail da, trwy'r hwn y caiff y rhai colledig eu ceisio a'u harwain i'r gorlan; portha ni a chawn ein digoni; iachâ ni, ac fe gawn ein gwneud yn gyfan; arwain ni fel y cawn fod gyda thi, yr hwn sydd gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân yn teyrnasu, yn Un Duw, yn oes oesoedd Amen.

**MYFYRDOD – 1 Pedr 3:8-22**
**Dioddef o achos cyfiawnder**

Mae'n debyg y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn dymuno cael byw bywydau diogel, cyfforddus, moethus gydag aur y byd a'i berlau man. Byddai'r rhan fwyaf ohonom yn dymuno meddwl bod bobl eraill yn ein hoffi, neu o leiaf yn ein parchu. Ac yn sicr fyddwn ni ddim am fyw dan wrthwynebiad ac erledigaeth.

Byw yr ydym mewn cartrefi gyda sylfaen ddiogel. Byw mewn tai ydym ac nid mewn pebyll yn teithio o le i le.

I lawer ohonom, y gwir yw hyn – nad ydym yn gyfforddus efo "newid". Mae newidiadau diweddar mewn technoleg a'r newidiadau a orfodwyd arnom oherwydd Cofid 19 yn gwneud i ni deimlo'n ansicr. Ond mewn gwirionedd tanlinellu mae'r pandemig ddiweddaraf i ni fod bywyd yn ei hanfod yn golygu newid am ei fod yn ei hanfod yn ansicr. Hunan dwyll oedd ein "sicrwydd" a'n "diogelwch" ymddangosiadol.

Yn ei lythyr mae Pedr yn cyfarch pobl sydd yn "ddieithriaid" yn eu gwlad eu hunain. Yn bobl sydd â gobaith bywiol ynddynt, yn feini bywiol mewn Teml fywiol, oedd wedi sylfaenu eu bywydau ar ben conglfaen bywiol a osodwyd gan yr Arglwydd Dduw ei hun. Mewn moes, mewn ffydd, mewn disgwyliad am a ddaw, fel y gwelsom eisoes, roedd eu bywydau yn ddatganiad, yn hysbyseb, yn gyhoeddiad bod Bywyd newydd wedi torri i mewn i'w bywydau.

Ac i'r graddau hynny, mae'r adnodau sydd o'n blaenau'n gwbl berthnasol i ni heddiw. Mewn byd gwrthwynebus i ffydd y Cristion*, mewn byd diobaith, mewn amser pan yr ydym fel aelodau yn ein capeli yn teimlo'n hunain yn fach o ran nifer ac yn ddiymadferth, sut ydym i fyw ac ymagweddu?

Mewn gair, beth mae Pedr am ei ddweud wrth ei gynulleidfa yw hyn. Peidiwch ag edrych ar nifer yr erlidwyr, eu "grym" na'i gallu i ddifa. Peidiwch ag edrych ar yr amgylchiadau allanol. Peidiwch ag edrych ar eich niferoedd bychain chwi. Yn hytrach,

- Sancteiddiwch Grist yn Arglwydd. Hynny yw, edrychwch ar Iesu a dysgu beth yw ystyr byw bob amser o dan ei Arglwyddiaeth Ef – golyga hynny edrych ar Iesu nid ar yr Ymerawdwr, yr Ymerodraeth na'r erlidwyr.
- Canolbwyntiwch ar beth ydych yn hytrach na beth sy'n digwydd ar ein cydwybod yn hytrach nag edrych ar ein gwatwarwyr. ad 14, 16,17.
- Edrychwch ar arwyddocâd eich ffydd-dysgwch, plymiwch ddyfnderau'r gobaith a osodwyd ynom fel y gallwch gyfleu'r "gobaith" a'ch meddiannodd. Unwaith eto "addfwynder a pharchedig ofn" sydd i nodweddu'n hymwneud gyda phobl nad ydynt yn rhannu'n ffydd. Sut allwn ni ddysgu heb ddarllen y Beibl, heb weddïo'n ddyddiol, heb geisio mynegi'r gobaith hwn i eraill?
- Edrychwch ar effaith a rhinwedd marwolaeth Iesu Grist. Un waith ac am byth dioddefodd drosom i'n cyflwyno i'r Arglwydd. Roedd arwyddocâd neilltuol i'w ddioddefaint. Ond cofiwch mai pendraw ei aberth oedd ei atgyfodiad a'i ddyrchafiad. Hyd yn oed os cawn ein galw i ddioddef dros ein ffydd, neu golli popeth mewn ffydd, pendraw ein dioddefaint, trwy Grist, fydd ein hatgyfodiad ninnau hefyd gydag ef.
- Peidiwch â meddwl bod eich nifer yn ddibwys. Nifer fach a achubwyd yn yr Arch gyda Noa. Nid y rhif ond yr achubwr a glendid eich moesau sy'n bwysig.
- Os edrychwn ar ein hamgylchiadau, ein rhwystrau neu ein gwrthwynebwyr, yna yr amgylchiadau, y rhwystrau a'r gwrthwynebwyr fydd yn ffurfio ynom natur ein cred, hyder ein gobaith a chymeriad ein tystiolaeth. Byddwn fel praidd o ddefaid yn cael ein tarfu'n rhwydd.
  Mae Sancteiddio Crist yn golygu mai Ef sy'n ffurfio cred, ein disgwyliad a'n gwerthoedd. Golyga hyn yn ymarferol ein bod, trwy Iesu Grist, yn "bwrw ymaith fudreddi yn ein gwerthoedd a'n hymwneud gyda phobl eraill a thrwy hynny ein bod yn meithrin cydwybod dda tuag at Dduw. Mae "calon lan yn llawn daioni" yn decach na'r lili dlos!

Nid i amherthnasedd nefolaidd y'n galwyd.

I'r Cristion y mae i obaith tragwyddol effeithiau ymarferol mewn glendid moes, gonestrwydd, gobaith addfwyn, a hyder parchus. Nid gan y byd, ond gan Iesu mae'r gair olaf.

Beth felly am feddwl o'r newydd am hyn?

A ydym yn sancteiddio Crist yn ein calonnau? A ydyw ef yn cael llywodraethu a ffurfio ein cred, ein gobaith, ein hofnau, ein ddoe a'n yfory? Beth tybed i ni yw cael byw gydag addfwynder, parchedig ofn a chydwybod lan? A tybed a yw Iesu Grist mor fawr yn ei golwg a'r darlun ohono a geir yn ad. 22? Yno gwelwn yr Iesu sydd wedi ei atgyfodi yn llywodraethu a phob angel, nerth a gallu yn plygu iddo. Ai dyna sail ein ffydd a'n gobaith heddiw?

**GWEDDI**

Arglwydd Iesu Grist, dwi'n cydnabod o dy flaen bod ffenestr fy nealltwriaeth o'r byd, o ras, ohonot ti, yn fach iawn- mor fach â'r sgrin dwi'n darllen y weddi hon arno. Cyfyng yw fy neall, gwantan yw fy ffydd, arwynebol yw fy ymddiriedaeth. Arglwydd Iesu, a wnei di ddangos i mi nad y ffenestri bach sy'n ffurfio realiti go iawn. Gad i mi o'r newydd gael golwg newydd ar dy ogoniant, dy allu, dy frenhiniaeth, mawredd y taliad a wnaed drosom, a'r fraint ryfeddol ein bod yn cael dod atat drwyddo Ef. Ac yn yr un modd dysga fi o'r newydd fod gonestrwydd, a chydwybod lân, bod geirwiredd, bod gostyngeidd-rwydd, bod addfwynder yn werthoedd tragwyddol bwysig. Maddau i mi eto.

Cyflwynaf i ti' rhai sy'n cael eu herlid heddiw oherwydd eu ffydd ynot ti. Cyflwynaf i ti eu herlidwyr. Cyflwynaf i ti'r rhai sy'n galaru ... y rhai sy'n dioddef … y rhai sy'n ofnus … Cyflwynaf i ti fy nheulu … y fro … meddygon, nyrsus a phawb arall sy'n ein gwarchod mewn dyddiau blin.

I ti Arglwydd y perthyn mawl a gogoniant, yn oes oesoedd, yn dy eglwys a thrwy'r nef, yn dy Fab Iesu Grist, Amen

**EMYN – Caneuon Ffydd 356**
**O na chawn i olwg hyfryd**

**Y FENDITH**

* Os ydych am ddarllen ymhellach cliciwch ar y ddolen https://www.theguardian.com/world/2019/may/02/persecution-driving-christians-out-of-middle-east-report